**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Mehefin 2003 |
| **Amser:** | 09.00 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Gweinidog |

**Diben**

1. Rhoi adroddiad ar amryw o faterion a gododd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor blaenorol.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Y Cefndir**

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor blaenorol ar 6 Mawrth 2003. Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Gweithgareddau Rhyngwladol y Prif Weinidog**

4. Rhoddir manylion fy ngweithgareddau rhyngwladol ers 6 Mawrth yn atodiad 1.

**Penodiadau**

5. Penodwyd Mr Rob Thomas yn Brif Weithredwr Masnach Cymru Rhyngwladol. Cyn ei benodi i'r swydd hon Mr Thomas oedd Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Masnach Ryngwladol ym Masnach Cymru Rhyngwladol.

**Materion Ewropeaidd Cyffredinol**

6. **Yr Ewro.** Ar 9 Mehefin cyhoeddodd y Canghellor, Gordon Brown, ganlyniad y Pum Prawf Economaidd ar gyflwyno'r Ewro yn y DU.

***"Overall the HM Treasury assessment is that since 1997 the UK has made real progress towards meeting the five economic tests. But, on balance, though the potential benefits of increased investment, trade, a boost to financial services, growth and jobs are clear, we cannot at this point in time conclude that there is sustainable and durable convergence or sufficient flexibility to cope with any potential difficulties within the euro area. So, despite the risks and costs from delaying the benefits of joining, a clear and unambiguous case for UK membership of EMU has not at the present time been made and a decision to join now would not be in the national economic interest".***
*Ffynhonnell:* UK Membership of the Single Currency, An Assessment of the Five Economic Tests. Trysorlys Ei Mawrhydi. Mehefin 2003.

7. Cyhoeddodd y Canghellor y diwygiadau a ganlyn i reolaeth gyllidol y DU:-

- newid y targed chwyddiant er mwyn iddo fod yn seiliedig ar fesur y Mynegai Cytûn o Brisiau Defnyddwyr
- dau adolygiad mawr ar y newidiadau sydd eu hangen i gynllunio a chyflenwi tai a'r farchnad ar gyfer morgeisi hir dymor
- diwygiadau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn hybu hyblygrwydd y marchnadoedd llafur, cyfalaf a chynnyrch ym Mhrydain
- trefniadau newydd ar gyfer polisi cyllidol Prydain yn yr EMU

8. Cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi'r “Third Outline National Changeover Plan” i fwrw ymlaen â pharatoadau trosglwyddo'r DU a chyhoeddodd y Canghellor agenda ddiwygio a fydd yn helpu i gydgyfeirio'n strwythurol a rhoi digon o hyblygrwydd, ac a fydd yn fodd o fodloni'r pum prawf yn y dyfodol. Anfonir copïau o'r ddogfen at Aelodau'r Cynulliad pan dderbynnir hwy gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

9. Y cam nesaf fydd sefydlu Pwyllgor Cymreig ar Baratoadau at yr Ewro a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr y sectorau economaidd yng Nghymru. Peter Hain fydd yn cadeirio. Mae manylion aelodaeth y pwyllgor yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

10. **Yr Ewro - Ymwybyddiaeth Byd Busnes**: Cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi adroddiad yn ddiweddar ar ymwybyddiaeth o'r ewro ymhlith busnesau'r DU a pha mor barod y mae busnesau ar ei gyfer. Mae crynodeb o'r adroddiad yn Atodiad 2. Hoffwn dynnu eich sylw at y tablau rhanbarthol yn yr atodiad. Gallwch ofyn i'r EEAD am gopi llawn o'r adroddiad drwy gysylltu â Bob Edwards ar estyniad 5680.

11. **Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop**. Mae'r Confensiwn bellach wedi dirwyn i ben. Cyflwynodd Llywydd y Confensiwn, Valery Giscard d'Estaing, gyfansoddiad drafft i Gyfarfod Cyngor Ewrop yn Thesalonica ar 20-21 Mehefin. Cafodd gymeradwyaeth uchel gan Benaethiaid y 15 Aelod-Wladwraieth ond disgwylir gwneud cryn dipyn o fân newidiadau i'r drafft cyn y gellir cytuno'n derfynol ar y Cyfansoddiad Ewropeaiddmewn Cynhadledd Rynglywodraethol yn gynnar y flwyddyn nesaf. Paratowyd papur trafod ar wahân ar y Confensiwn.

12. **Dyfodol y cronfeydd strwythurol**. Sonnir am fy rhan i yng nghyfarfod anffurfiol y gweinidogion yng Ngwlad Groeg yn Atodiad 1. Cychwynnodd ymgynghoriad ledled y DU ar gynigion ynghylch dyfodol y cronfeydd ar 6 Mawrth a bydd yn dod i ben ar 4 Gorffennaf. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried pob ymateb o Gymru cyn llunio'i hymateb ei hun i'r ymgynghori. Bydd swyddogion Llywodraeth y DU yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ac i Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog Cymru**